

Bwletin Drych Iechyd

Pigyn Clust ac Adwyth



PIGYN CLUST AC ADWYTH (INFECTION)

Gan fod pigyn clust ac adwyth yn y glust ganol mor gyffredin, yn enwedig mewn plant, rydw i'n awyddus i chi gael clywed am fanteision homeopat heg yn y cyswllt hwn.

Ar ddechrau fy ngyrfa, roedd yr hen arferiad prif-lif o roi gwrthfotig at bron bob *otitis media* yn dal yn gyffredin, er gwaetha'r ffaith nad bacteria oedd wrth wraidd y symptomau bob tro. Hyd yn oed bryd hynny, roedd y pryderon am orddefnyddio gwrthfotigau yn wybyddus.

Dydw i ddim yn honni nad oes lle ac amser i ffigur gwrthfotig, ond yn achos adwythi clust, mae'n bosib y byddai rhieni yn llai tebygol o ofyn amdano pe byddai ganddyn nhw a) rywbeth arall effeithiol yn ei le, a b) ddealltwriaeth o'r niwed sy'n gallu deillio o'i gamddefnyddio, a hynny ar sawl lefel. Dyma un eglurhâd gan yr homeopath, Joette Calabrese:

"Yn y blynyddoedd cynnar pan mae beiom mewnol plentyn yn fregus, mae canlyniadau difrifol a hir-dymor i'w cael o 'styrbio'r gut flora gyda ffigur gwrthfotig.

Mae 'styrbio meicrobiom y perfedd yn arwain at broblemau yn y system dreulio, ac oherwydd fod iechyd y perfedd ac imiwnedd yn perthyn yn annatod i'w gilydd, bydd yr imiwnedd hefyd yn dioddef!

Mae dirywiad mewn imiwnedd yn arwain at adwythi (infections) di-ben-draw, cyflyrau awto-imiwn a chyflwr iechyd cyffredinol gwantan.

Ac yn gyffredin, mae cyflwr iechyd gwantan ac imiwnedd bregus yn golygu mwy o wrthfotigau, a'r perygl ydi y byddi di neu dy blentyn wedi dy ddal mewn cylch dieflig."

Felly, yn lle mynnu gwrthfotig yn syth, mae yna duedd erbyn hyn i aros a gwyllo be' ddaw, a'r GIG yn cynghori: "Does dim angen gweld meddyg teulu ym mhob achos o adwyth clust gan eu bod nhw'n aml yn gwella ohonynt eu hunain o fewn 3 diwrnod." (www.nhs.uk/conditions/ear-infections)

Ar un wedd, dyna ddatganiad gwerth chweil – dathliad o allu cynhenid y corff i hunan-iacháu. Ond anodd ydi gwyllo plentyn yn dioddef am ddridiau cyfan pan fo dull arall ar gael, dull sy'n ddiogel i feicrobiom plentyn, a dull sy'n medru gweithio'n gyflym: homeopat heg.

'Nabod y Plentyn Er mwyn i remydi homeopathig weithio, rhaid i ni sylwi'n fanwl ar natur y claf a'i ymateb unigol i'w salwch, yna matsio hynny gyda remydi sy'n gweddu yn agos i'r disgrifiad. Rhaid i ni hefyd wybod pryd i alw am help mewn ymateb i unrhyw symptomau difrifol.

'Nabod y Remydis Yn 2000, cynigiodd y nyrs a'r homeopath Sidney Skinner y gallai meddygon teulu brofi gwerth homeopat heg drostynt eu hunain, drwy ddysgu manylion y remydis pediatrig mwyaf cyffredin a'u defnyddio mewn unrhyw achos o adwyth clust sy'n matsio'n glir.

Er budd plant heddiw, rydw i'n darparu saith disgrifiad dros y dudalen, at ddefnydd eu rhieni, a gobeithio at ddefnydd meddygon eang-frydig y dyfodol.

Aude sapere.



MEDDWL CYN SIARAD ♥ DARLLEN CYN MEDDWL*

Healing Childhood Ear Infections: Dr Michael A. Schmidt (North Atlantic Books, 1996);

¹*An Introduction to Homeopathic Medicine in Primary Care - Treating Ear Infections:* Sidney Skinner (Aspen Publishers, 2000);

Downward Spiral: Antibiotics and Recurring Infections: Joette Calabrese (www.joettecalabrese.com, 2017);

Evidence Based Homeopathic Family Medicine 2021: Dana Ullman (Homeopathic Educational Services at www.homeopathic.com, 2021);

Gut and Physiology Syndrome: Dr Natasha Campbell-McBride (Medinform, 2020).

*Fran Lebowitz - Social Studies

Oes 'na Blant yn Tŷ Chi?

Moelwch Eich Clustiau...

Rydw i'n credu fod bocs remydis homeopathig yn ased i deulu.

Hyd yn oed os nad ydi rhiant wedi datblygu digon o hyder eto i ddewis remydis i'r plant, mae'n bosib ffonio'r Homeopathic Helpline am gyngor pan fo angen am hynny. Gan fod achosion aciwt fel pigyn clust yn galw am remydi yn syth bin, mae hon yn ffordd dda o fedru ymateb ar amrantiad – dim aros am apwyntiad, dim aros tan fory i'r remydi gyrraedd.

Pan fydd pigyn clust yn datblygu yn *sydyn iawn* neu mewn ymateb i oerfel, estyn am **Aconite 30c** yn y lle cyntaf. Yn dilyn hynny, mae'n bosib y bydd un o'r isod yn gweddu.

Apis mel 30c – Gall Apis helpu pan fydd y glust allanol yn amlwg yn goch ac yn llidiog. Bydd y plentyn yn aflonydd, ac os mewn oed siarad gall ddweud fod y boen yn pigo neu'n llosgi.

Belladonna 30c – Fel Aconite, mae symptomau Belladonna yn dueddol o ddatblygu yn *sydyn*. Drwy otoscop meddyg bydd y bilen dympanaidd i'w gweld yn bochio'n goch, ond gall rhiant adnabod y gweddill – llygaid sgleiniog, wyneb fflamgoch ac efallai ddannedd yn torri drwodd ar unwaith â'r pigyn clust. Fydd y plentyn *ddim* yn hoff o gael ei gario na'i siglo.

Chamomilla 30c – Bydd y plentyn wedi troi'n biwis ac amhosib i'w blesio mewn ymateb i'w bigyn clust. Cario'r plentyn a pheidio aros yn llonydd ydi'r unig beth sy'n debygol o stopio'i sgrechian – a dôs o Chamomilla wrth gwrs. Mae carthion gwyrrd a thorri dannedd yn aml yn cyd-fynd â'r cyflwr.

Ferrum phos 30c – Tydi'r egni yma ddim yn sefyll allan fel y lleill, ond yn ychwanegol at bigyn clust, bydd rhiant yn medru gweld fod wyneb y plentyn yn goch, bydd mymryn o wres a syched mwy na'r arfer. Drwy otosgop y meddyg teulu, ni fydd crawn (*pus*) i'w weld a dim ond patsys o gochni yn y glust.

Hepar sulph 30c – Dyma bigyn clust sy'n anodd i'w ddiodesff gyda sdwff melynwyrrd tew yn dod i'w ganlyn. Mae'r plentyn yn debygol o deimlo'n rhylllyd, a'r drafft lleiaf yn ffyrnigo ei bigyn clust. Weithiau bydd dolur gwddw yn rhan o'r pictiwr hefyd, gyda phoenau'n saethu rhwng y gwddw a'r glust.

Pulsatilla 30c – Waeth beth fo'r brif gwyn – otitis media, otitis externa (neu tonsilitis neu hydrocele etc) rydym yn gyfarwydd efo ffordd Pulsatilla o ymateb i'w salwch, sef cwynfan a chrio a mynnu mwythau di-dor. Bydd y plentyn yn cynhyrchu crawn (*pus*) melyn neu wyrdd yn y glust a'r trwyn. Fydd dim pwt o syched ganddo, a bydd yn dyheu am awyr iach.

Faint o ddôs a pha mor aml? Sbia yn y llyfr bach yn y bocs remydis.



HOMEOPATHYDDION

gan Mo Morrish

“Yn ôl Adroddiad EURISPES 2019 (Astudiaeth Wleidyddol, Economaidd a Chymdeithasol) mae 500,000 o ddarparwyr homeopat heg drwy'r byd, gyda 50,000 o'r rheiny yn Ewrop.

Cafodd y rhan fwyaf ohonom ni homeopathyddion ein magu mewn diwylliant materyddol a chafodd nifer ohonom hyfforddiant gwyddonol neu feddygol. Doedd y rhan fwyaf ohonom ni erioed wedi clywed am homeopat heg a hyd yn oed petaem ni, byddem wedi bod yn amheus! Os oedd rhywun yn sâl roedd o'n mynd at y doctor – dyna beth oeddem ni, fel y rhan fwyaf o bobl, yn ei gredu. Felly pam wnaethom ni newid ein meddwl?

Aeth y rhan fwyaf ohonom i hyfforddi mewn homeopat heg o ganlyniad i ryw brofiad cadarnhaol; o'i weld yn helpu aelod o'r teulu oedd ddim yn ymateb i feddyginiaeth prif-lif, neu o gael profiad tebyg ein hunain...

...Unwaith mae rhywun wedi gweld plentyn yn sgrechian gan bigyn clust, yna'n setlo i gwsg braf o fewn munud ar ôl cymryd remydi, does dim troi yn ôl; mae'n *rhaid* iddo gael gwybod mwy am homeopat heg.”

Mo Morrish

Homeopathy - Hippocratic Medicine.
The School of Homeopathy, 2020.

Rhai Colegau Hyfforddi ym Mhrydain:

North West College of Homeopathy: Manceinion.

The School of Homeopathy: Stroud.

Faculty of Homeopathy: Bryste, Llundain, Dundee, Newcastle a Gogledd Iwerddon (i feddygon, deintyddion, nyrsus, bydwagedd, fferyllwyr a milfeddygon yn unig).

Welsh School of Homeopathy: Caerfyrddin.

Am restr fwy cyflawn o golegau ewch i
www.whichhomeopathycourse.org.

Mae pob un o erthyglau a blogiau **Drych Iechyd** wedi eu hysgrifennu er budd y rheiny sy'n dymuno dysgu am wir ystyr iechyd, yn awyddus i feddwl yn eang ac yn barod i gymryd cyfrifoldeb am eu dewisiadau nhw eu hunain. Natur addysgiadol sydd i bob gwybodaeth a rennir ac ni ddylai ddisodli cyngor meddygol. Ni ellir addo cywirdeb na chyflawnder y cynnwys, na chwaith ei berthnasedd i unrhyw gyflwr neu amgylchiad personol. Os am roi unrhyw syniad neu egwyddor a ddisgrifir yma ar waith, chi sy'n cymryd cyfrifoldeb llawn am hynny. Mynnwch gyngor gan ymarferydd iechyd pan yn sâl.

AUDE SAPERE – MENTRA WYBOD – DARE TO GET IT

Elin Alaw – Homeopath Proffesiynol ac Ymarferydd G.A.P.S.

elinalawhomeopath@yahoo.co.uk / 07989 491 417 / www.elinalaw.com